**Ymateb S4C i Adolygiad Ofcom o'r drefn amlygrwydd: Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i’r Cod EPG llinol a dyfodol y drefn**

*5ed Hydref 2018*

## Cyflwyniad

Mae S4C yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus ('PSB') gyda phwrpas cyhoeddus unigryw i ddarparu gwasanaeth teledu yn yr iaith Gymraeg. Drwy hyn, mae S4C yn chwarae rôl hanfodol wrth gynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, gan adlewyrchu'r diwylliannau amrywiol sy'n defnyddio'r Gymraeg drwy ddarparu cynnwys o ansawdd uchel sy'n hygyrch i bawb. Mae S4C bellach wedi esblygu o fod yn ddarlledwr sianel deledu i fod yn ddarparwr gwasanaethau digidol ar draws amryw o lwyfannau drwy'r DU.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cyhoeddwyd adolygiad annibynnol o S4C wedi ei gomisiynu gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ('DCMS') sy'n cynnwys nifer o argymhellion[1], ynghyd ag ymateb DCMS iddynt[2]. Yn ddiweddar, mae S4C wedi cyhoeddi cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion[3]. Mae nifer o'r camau sydd i'w cymryd yn berthnasol i'n hymateb i adolygiad Ofcom a chyfeirir atynt lle'n briodol isod.

## Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig ('EPGau') Teledu

Mae adolygiad Ofcom yn argymell y canlynol ar gyfer safle S4C ar EPGau teledu:

- Parhau yn slot 4 yng Nghymru ar EPGau a ddarperir ar gyfer gwylwyr yng Nghymru.
- Lle nad oes EPG penodol i Gymru, dylai S4C gael slot sicr ar dair tudalen gyntaf EPGau ledled y DU.

### *Slot 4 yng Nghymru*

Rydym yn cefnogi'r argymhelliad fod S4C yn parhau yn slot 4 yng Nghymru. Dyma'r slot sydd wedi bod gan S4C yn hanesyddol ers ei sefydlu yn 1982 a dyma lle mae'r gynulleidfa'n disgwyl canfod y sianel. Fel sianel sy'n gwasanaethu gwylwyr yng Nghymru, mae'n gwbl briodol fod S4C wedi ei grwpio gyda BBC1 Cymru, BBC2 Cymru ac ITV Cymru a bod gwylwyr yng Nghymru'n gallu darganfod yr holl gynnwys teledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n berthnasol iddyn nhw yn yr un man.

Mae gan S4C rôl hanfodol yn darparu sianel gyflawn yn yr iaith Gymraeg ar draws ystod eang o *genres.* Mae'n gwneud cyfraniad pwysig i barhad y Gymraeg fel iaith gyfoes ac yn iaith 'bob dydd' i bobl o bob oedran. Yn enwedig, mae gwasanaethau S4C i blant, gan gynnwys *Cyw* a *Stwnsh*, yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r gwaith o normaleiddio'r Gymraeg i blant iau a hŷn. Mewn oes pan fod yna fwyfwy o wasanaethau Saesneg i ddenu sylw plant a phobl ifainc, o'r DU a thu hwnt, mae'n bwysig iddynt weld teledu Cymraeg wedi ei brif ffrydio drwy ymddangos ochr yn ochr â'r prif ddarparwyr PSB eraill.

Yn ogystal â galluogi pobl i fwynhau rhaglenni yn y Gymraeg a helpu plant ac oedolion i ddysgu'r iaith, mae S4C yn darparu rhaglenni o ddiddordeb Cymreig i'r gynulleidfa ehangach yng Nghymru, gan adlewyrchu digwyddiadau a diwylliant Cymru yn eang.

---

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/695963/Building_an_S4C_for_the_Future_Welsh_Accessible.pdf

[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/695758/Government_response_to_the_S4C_indep_Welsh_Accessible.pdf

[3] http://www.s4c.cymru/media/media_assets/S4C-DCMS-AA-Cynllun-Gweithredu.pdf

Mae S4C yn cynnig ystod eang o gynnwys i apelio at wylwyr o bob oedran a thrawstoriad eang o'r gynulleidfa. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni plant, chwaraeon, drama, cyfresi sebon, adloniant ysgafn, rhaglenni cylchgrawn, newyddion, materion cyfoes, ffeithiol a chrefydd, yn ogystal ag arlwy eang o'r prif ddigwyddiadau diwylliannol a chenedlaethol yng Nghymru. Gan ddarparu isdeitlau ar bron i 80% o'n rhaglenni, mae ein rhaglenni'n denu cynulleidfa o blith siaradwyr Cymraeg a'r di-gymraeg, gyda c.55% o'n gwylwyr yn ddi-gymraeg.

Mae arolwg annibynnol tracio delwedd gan Beaufort Research yn dangos dros y blynyddoedd bod S4C yn cael ei hystyried fel "Y Sianel i Gymru" - yn uwch na phob sianel PSB arall.  Mae hyn yn wir ymhlith siaradwyr Cymraeg a'r rheini sy'n ddi-gymraeg. Fe'i hystyrir yn rhan annatod o adlewyrchu diwylliant, iaith, ardaloedd a hunaniaeth Cymru a'i phobl.

O ran cryfderau rhaglenni, gwelir S4C yn gryf ar gyfer "rhaglenni dogfen perthnasol i bobl Cymru", Chwaraeon, Rhaglenni Cerddoriaeth, Digwyddiadau a rhaglenni Plant. I lawer o rieni di-gymraeg a theuluoedd cymysg eu hiaith, mae gwasanaeth rhaglenni *Cyw* yn adnodd hanfodol.  Mae'r plant yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol, a gall y teulu cyfan wylio'r gwasanaeth teledu gyda'i gilydd.

Dyma rai o brif ganfyddiadau'r holiadur diweddaraf (2017/18), sy'n dangos bod S4C yn cael ei hystyried yn un o brif ddeiliaid yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru:

| | **Siaradwyr Cymraeg (% cytuno)** | **Di-gymraeg (% cytuno)** |
|---|---|---|
| Mae S4C yn sianel bwysig i'r iaith Gymraeg | 97 | 96 |
| Mae S4C yn berthnasol i hunaniaeth Cymru a'i phobl | 95 | 96 |
| Y sianel gyda'r arlwy gorau o ddigwyddiadau yng Nghymru | 97 | 89 |
| Sianel sy'n cyfrannu i ddiwylliant Cymru | 95 | 82 |

Yn ei ymateb i'r Adolygiad Annibynnol, dywedodd DCMS: *"Rydym yn cytuno bod S4C yn chwarae rhan hanfodol mewn adlewyrchu diwylliant a chymdeithas Cymru a hybu'r iaith Gymraeg."* Croesawodd DCMS yr argymhelliad i S4C sefydlu partneriaeth iaith i helpu cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

O ystyried y rôl ganolog yma ym mywyd Cymru, mi fyddai'n gwbl naturiol i wylwyr yng Nghymru weld S4C mewn safle EPG uchel. Mae Ofcom yn nodi yn ei ddogfen ymgynghori fod 22% o oedolion yng Nghymru wedi dweud eu bod yn gosod o leiaf rhywfaint o bwysigrwydd ar ei chael hi'n hawdd i ganfod S4C ar y cyfeirydd teledu ar eu set deledu.

Mae cael yr amlygrwydd yma yn arbennig o werthfawr i S4C. Mae'r her o ddenu gwylwyr i gynnwys Cymraeg yn fwy nag erioed, gyda chymaint o ddewis ymhlith sianeli eraill gyda brandiau cryf a chyllidebau hyrwyddo llawer mwy.

O ystyried bod yna resymau clir dros yr argymhelliad i gynnal amlygrwydd S4C yn y pedwerydd safle yng Nghymru, hoffem ofyn i Ofcom ystyried a oes yna reswm technegol bellach pam na ellir gofyn i bob darparwr EPG teledu gynnig EPG penodol i

Gymru. Byddai hyn yn galluogi gwylwyr yng Nghymru i ganfod S4C mewn safle cyson ar draws pob llwyfan teledu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno ar EPGau sy'n cael eu darparu'n benodol i Gymru y dylai'r tri slot cyntaf gael eu rhoi i BBC1, BBC2 a'r gwasanaeth Sianel 3 perthnasol, gydag S4C yn slot rhif pedwar, Channel 5 yn slot rhif pump a Channel 4 yn cael gwarant y bydd yn ymddangos ar y dudalen gyntaf?** | Ydyn. Mae'r rhesymau dros roi S4C yn slot rhif pedwar yng Nghymru wedi eu nodi uchod. |
| **Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno y dylid gwarantu amlygrwydd i S4C, BBC Alba a BBC Scotland o fewn tair tudalen gyntaf EPG y wlad benodol e.e. S4C yng Nghymru, BBC Alba a BBC Scotland yn yr Alban?** | Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am warantu amlygrwydd i S4C o fewn tair tudalen gyntaf EPG yng Nghymru. Mae ymgynghoriad Ofcom fodd bynnag yn argymell gwarantu slot rhif pedwar i S4C yng Nghymru. Cytunwn y dylai S4C gael slot rhif pedwar yng Nghymru am y rhesymau a nodir uchod. |

*Slot ar dair tudalen gyntaf EPGau ledled y DU*

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r argymhelliad bod S4C yn cael lle ar dair dudalen gyntaf EPGau ledled y DU, ond gan nodi'r cwestiwn uchod am gynyddu'r llwyfannau sy'n cynnig EPG penodol i Gymru. Fodd bynnag, credwn y dylai'r argymhelliad ymestyn i bob platfform, p'un ai bod yna EPG penodol i Gymru ai peidio. Teimlwn y dylai S4C gael rhyw lefel o amlygrwydd y tu allan i Gymru – yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – a chredwn mai sicrhau slot ar dair tudalen gyntaf yr EPG yn y gwledydd hynny i S4C yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen.

Y rhesymeg dros hynny yw bod y gynulleidfa am gynnwys S4C yn ymestyn tu hwnt i Gymru, gyda thua 50% o gynulleidfa S4C bellach yn gwylio o'r tu allan i Gymru. Y rhaglenni mwyaf poblogaidd y tu allan i Gymru yw rhaglenni chwaraeon, plant, digwyddiadau cenedlaethol a rhaglenni dogfen.

Mae adolygiad Ofcom (paragraff 5.50) yn cynnwys S4C fel un o'r sianeli '*nation-specific*' ond mae S4C bellach yn cael ei gydnabod fel sianel sy'n gwasanaethu'r DU gyfan, tra bod ganddo hefyd gyfrifoldeb arbennig tuag at boblogaeth Cymru. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o dreftadaeth y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd a dylai amlygrwydd y gwasanaeth mae S4C yn ei ddarparu adlewyrchu hynny.

Yn yr Adolygiad Annibynnol o S4C y cyfeirir ato uchod, daethpwyd i'r casgliad bod angen diweddaru cylch gorchwyl statudol S4C i godi'r cyfyngiadau daearyddol sydd arno. Gyda chanran mor uchel yn gwylio S4C y tu allan i Gymru, "*dylai S4C allu darparu cynnwys heb y cyfyngiadau daearyddol presennol i ddarparu rhaglenni 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf' i bobl yng Nghymru*".

Mae DCMS wedi derbyn yr argymhelliad i gael gwared ar y cyfyngiadau darlledu daearyddol presennol: "*Bydd diweddaru'r cylch gwaith yn galluogi S4C i sicrhau bod ei gynnwys ar gael ar amrywiaeth ehangach o lwyfannau - yng Nghymru, ledled y DU a thramor*."

Er mwyn gwneud y gorau o'r buddsoddiad cyhoeddus yn S4C, sydd wedi ei ariannu'n bennaf gan dalwyr ffi'r drwydded ar draws y DU, rydym o'r farn y dylai'r cynnwys fod yn hawdd i'w ganfod ble bynnag yn y DU mae'r gwylwyr ac y dylai S4C gael slot ar dair tudalen gyntaf yr EPG y tu allan i Gymru. Byddai hyn yn gyson ag argymhelliad Ofcom i gynnwys mwy o sianeli PSB ar y dair tudalen gyntaf ac yn cydfynd â disgwyliadau gwylwyr o dan y drefn newydd.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylid gwarantu amlygrwydd i S4C, BBC Alba, a BBC Scotland o fewn tair tudalen gyntaf EPGau ar draws y DU?** | Ydyn, ond hefyd:<br>- Gofynnwn i Ofcom ystyried a all pob darparwr EPG teledu gynnig EPG penodol i Gymru.<br>- Credwn y dylid gwarantu amlygrwydd i S4C o fewn tair dudalen gyntaf EPGau sydd ar gael y tu allan i Gymru, yn ogystal ag unrhyw EPGau ar draws y DU.<br>Mae'r rhesymau dros hyn wedi eu nodi uchod. |

*HD*

Mae S4C yn cynnig fersiwn gydamserol o'i sianel deledu mewn HD ar Sky a Freesat ar hyn o bryd, gyda'r gobaith o ehangu'r platfformau HD i'r dyfodol. Rydym yn cytuno ag argymhelliad Ofcom y dylid medru cyfnewid fersiwn HD cydamserol yn lle'r fersiwn SD yn y slot sy'n denu amlygrwydd ar yr EPG.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ganiatáu i ddarlledwyr gyfnewid amrywiadau cyd-ddarlledu HD o'u sianeli SD dynodedig, er mwyn i'r amrywiadau HD hynny allu llenwi'r slotiau y byddai gan y sianeli SD hawl iddynt?** | Ydyn. |

*Trefniadau trosiannol*

Mae Ofcom wedi awgrymu cyfnod trosiannol o 12 mis ar ôl diweddaru Cod Amlygrwydd Ofcom i ddarparwyr EPG weithredu'r trefniadau newydd. Rydym yn cytuno gyda 12 mis fel uchafswm.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddarparu cyfnod pontio o 12 mis ar ôl llunio fersiwn terfynol y Cod?** | Rydym yn cytuno gyda chyfnod pontio o 12 mis fel uchafswm. |

**Diogelu amlygrwydd mewn byd digidol**

Mae gan S4C ei chwaraewr ei hun, sef S4C Clic, ble mae holl gynnwys teledu S4C, ynghyd â chynnwys ychwanegol, ar gael i'w ffrydio'n fyw ac ar alw, drwy'r cyfrifiadur a thrwy apiau ar ddyfeisiadau symudol a rhai setiau teledu clyfar. Mae S4C hefyd yn rhoi cynnwys ffurf-fer ar gael ar Facebook a YouTube ac wedi creu *Hansh* fel brand ar wahân,

sef gwasanaeth ffurf-fer ar-lein sy’n targedu pobl 16 – 34 oed. Rydym hefyd yn cynnig cynnwys i blant ifanc drwy ein gwasanaeth ar-lein *CywTiwb*. Mae’r holl gynnwys sy’n cael ei ddarparu drwy ein gwasanaethau ar-lein yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg.

Ers 2014, mae’r rhan fwyaf o gynnwys teledu S4C wedi bod ar gael ar yr *iPlayer* i ffrydio’n fyw ac ar alw. Mae hyn wedi galluogi cynnwys S4C i gael ei fwynhau ar ystod eang o ddyfeisiau sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol o wylio. Daeth y datblygiad hwn yn bosib o dan y bartneriaeth unigryw a grëwyd rhwng y BBC ac S4C o ganlyniad i’r ffaith bod y rhan fwyaf o ariannu S4C yn dod o ffi’r drwydded.

Rydym yn credu’n gryf bod angen moderneiddio’r fframwaith am amlygrwydd EPG ar gyfer PSBs ac ymestyn yr un egwyddorion i blatfformau digidol. Rydym yn cytuno’n llwyr â chynnwys yr ymateb ar y cyd â’r PSBs eraill sydd wedi ei lunio ac atodwn gopi ohono fel rhan o ymateb S4C i Ofcom.

Hoffwn ychwanegu’r sylwadau canlynol o safbwynt S4C:

Fel y nodir uchod, mae S4C wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o normaleiddio’r Gymraeg ac mae hi’n holl bwysig, er mwyn cadw’r Gymraeg yn rhan o fywyd pob dydd pobl iau a chenedlaethau’r dyfodol, bod S4C yn dosbarthu cynnwys yn y gofod digidol a bod y cynnwys hwnnw’n hawdd i’w ddarganfod. Mae hwn yn ofod sy’n cynnig mwy o ddewis nag erioed ac mae cynnwys Saesneg yn domineiddio’r llwyfannau mwyaf poblogaidd. O ystyried hyn i gyd, mae’r her o godi ymwybyddiaeth o gynnwys Cymraeg, a chael pobl iau i ymwneud ag e trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enfawr.

Mae S4C am ymateb i’r her yma drwy gynyddu ei fuddsoddiad mewn cynnwys digidol yn sylweddol a sicrhau bod y cynnwys ar gael ar ystod eang o lwyfannau. Roedd hyn ymhlith prif argymhellion yr Adolygiad Annibynnol ac mae DCMS wedi cytuno gyda’r argymhelliad i S4C wneud mwy yn y maes digidol. Mae DCMS hefyd wedi derbyn yr argymhelliad i ddiweddaru cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein.

Er mwyn sicrhau bod ein buddsoddiad mewn cynnwys digidol o ffynonellau arian cyhoeddus yn cyflawni amcanion ein cylch gwaith, mae’n holl bwysig bod yna fframwaith i sicrhau bod y gynulleidfa’n medru darganfod a mwynhau’r cynnwys yn hawdd. Rydym felly’n annog Ofcom i argymell sefydlu cyfundrefn statudol i sicrhau amlygrwydd digonol i gynnwys PSB ar lwyfannau digidol.

Rydym hefyd wedi ystyried a oes yna le i gynnig gwahanol lefelau o amlygrwydd daearyddol mewn byd digidol. Ar hyn o bryd, yn gyffredinol mae hi’n anodd adnabod lleoliad defnyddiwr mewn ffordd ddibynadwy. Mae’n gallu bod yn anodd adnabod lleoliad rhywun yn gywir o’u cyfeiriad IP. Gyda dyfeisiadau symudol, mae’r lleoliad yn newid wrth i’r defnyddiwr symud. Mae yna rai eithriadau, megis YouView, lle mae yna *set top box* penodol lle mae’n rhaid cofnodi’r lleoliad. Yn yr achosion hynny, gellid amrywio trefn y gwasanaethau ar y rhyngwyneb defnyddiwr ac mi fyddem yn argymell rhoi lefel uwch o amlygrwydd i S4C yng Nghymru.

Rydym yn cytuno bod yna werth gwasanaeth cyhoeddus penodol i’n cynnwys i ddefnyddwyr yng Nghymru. Ac fel sydd yn wir yn achos cynnwys teledu, mae cynnwys sy’n cael ei ddosbarthu ar lwyfannau digidol i’n cynulleidfaoedd yn adlewyrchu lle’n briodol amgylchiadau sy’n berthnasol i bobl Cymru. Mae hynny’n cynnwys derbyn cyd-destun datganoledig ystod o feysydd proffil uchel (iechyd, addysg, amaeth ayyb) fel rhan naturiol o drafodaethau o fewn ystod o *genres*.

Yn gyffredinol felly, rydym yn ymwybodol o’r angen i gynulleidfaoedd yng Nghymru dderbyn cynnwys perthnasol a bod yn ymwybodol o lle mae’r cynnwys perthnasol ar lwyfannau digidol. Er yr anawsterau presennol, rydym yn gofyn i Ofcom fod yn flaengar

yn yr agenda yma, mewn cydweithrediad â darparwyr fel S4C, a sicrhau bod y fframwaith rheoleiddiol yn cyd-fynd â'r hyn y mae'r dechnoleg ddiweddaraf yn medru ei hwyluso yn hyn o beth.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 13: Ydych chi'n meddwl y dylid ymestyn y drefn amlygrwydd i sicrhau ei bod yn hawdd canfod yr EPGau eu hunain?** | Ydyn, am y rhesymau a nodir uchod ac yn yr Atodlen. |
| **Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno â'r ystod eang o ffactorau i'w hystyried yr ydym wedi eu hadnabod?<br>A oes yna ffactorau eraill y dylai llunwyr polisi eu hystyried?** | Ydyn.<br><br>Dylid ystyried hefyd i ba raddau y gellir ac y dylid addasu'r lefel o amlygrwydd sy'n briodol mewn ardal ddaearyddol benodol. |
| **Cwestiwn 15: Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a nodwyd gennym? A ddylid ystyried egwyddorion eraill?** | Wele ein sylwadau uchod ac yn yr Atodlen am yr egwyddorion y credwn y dylid eu hystyried. |
| **Cwestiwn 16: Ydych chi'n meddwl y dylid ymestyn y drefn amlygrwydd i sicrhau ei bod yn hawdd canfod chwaraewyr y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus?** | Ydyn, am y rhesymau a nodir uchod ac yn yr Atodlen. |
| **Cwestiwn 17: Ydych chi'n meddwl y dylid ymestyn y drefn amlygrwydd i sicrhau ei bod yn hawdd canfod cynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy argymhellion a / neu chwilio? Os felly, pa baramedrau allweddol fyddech chi'n eu gosod ar yr agwedd hon ar y drefn?** | Ydyn. Wele ein rhesymau a sylwadau uchod ac yn yr Atodlen. |
| **Cwestiwn 18: Ydych chi'n meddwl y dylid ymestyn y drefn amlygrwydd i lwyfannau a dyfeisiau nad ydynt yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd ar drefn amlygrwydd yr EPG? Os felly, sut rydych chi'n meddwl y gellid ymestyn y drefn, a phwy ddylid ei gofnodi?** | Ydyn. Wele ein rhesymau a sylwadau uchod ac yn yr Atodlen. |
| **Cwestiwn 19: Ydych chi'n meddwl y dylid ymestyn y drefn amlygrwydd i wasanaethau ar-lein? Os felly, pwy ddylid ei gofnodi?** | Ydyn. Wele ein rhesymau a sylwadau uchod ac yn yr Atodlen. |

**Atodlen**

**Ymateb ar y cyd â'r PSBs eraill ar amlygrwydd mewn byd digidol**

**Sefydlu fframwaith amlygrwydd newydd**

Mae'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ('PSBs') yn parhau i gefnogi'r egwyddor o amlygrwydd ar gyfer sianeli teledu PSB llinol yn gryf, ac yn croesawu adolygiad Ofcom o'r graddau mae hyn yn cael ei gyflawni. Serch hynny, mae globaleiddio yn newid y dirwedd cyfryngau yn sylfaenol. Mae newid technolegol yn hwyluso cystadleuaeth fyd-eang frwd. Mae llwyfannau ar-lein byd-eang a dosbarthwyr teledu byd-eang yn chwarae rôl gynyddol yn nosbarthu a chanfod cynnwys, gan geisio gwneud i ffwrdd â rôl chwaraewyr y DU fel 'canolwyr'. Er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiad cynyddol hwn, mae'r PSBs yn gytûn ar flaenoriaeth hollbwysig, sef diweddaru'r ddeddfwriaeth i foderneiddio'r gyfundrefn amlygrwydd bresennol drwy ei hymestyn y tu hwnt i deledu llinol ac EPGau llinol.

Yn ein barn ni, ni fydd y diweddariadau mwyaf effeithiol i'r ddeddfwriaeth yn seiliedig ar geisio rhagweld sut beth fydd y technolegau ar gyfer canfod a defnyddio cynnwys yn y dyfodol. Yn hytrach, dylai'r canlyniadau allweddol gael eu diogelu mewn deddfwriaeth, a dylai'r canlyniadau hynny gynnwys <u>hawl i amlygrwydd sylweddol ar gyfer PSBs</u>. Yn benodol, dylai hyn gynnwys:

- *Amlygrwydd sylweddol i bob gwasanaeth llinol PSB a phob gwasanaeth ar-alw cysylltiedig a ddarperir gan PSB (neu fwy nag un PSB):* Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gadw (a chael y pŵer i amrywio drwy Orchymyn) rhestr o'r 'gwasanaethau o fewn y cwmpas' hyn.
- *Amlygrwydd sylweddol ar bob prif ryngwyneb defnyddwyr:* dylai'r gyfundrefn gynnwys y rheini sy'n arfer rheolaeth olygyddol ar bob rhyngwyneb defnyddwyr ar yr holl brif lwyfannau, dyfeisiau a gwasanaethau yn y DU er mwyn defnyddio cynnwys teledu neu gynnwys tebyg i deledu. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gael y pŵer i amrywio'r diffiniad hwn drwy Orchymyn. Mewn achos anghydfod o ran a ydy rhyngwyneb defnyddwyr o fewn y cwmpas ai peidio, dylai Ofcom benderfynu.[4]

Dylai'r gyfraith osod <u>gofyniad ar Ofcom i ddiffinio 'amlygrwydd sylweddol'</u> yn ei ganllawiau. Dylai hefyd fynnu bod canllawiau Ofcom yn nodi'r canlynol:

- *Ym mha swyddogaethau rhyngwyneb defnyddwyr y dylai gwasanaethau o fewn y cwmpas fod yn amlwg*, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) yr holl rannau hynny o'r rhyngwyneb:
    - *Sy'n cael eu pennu gan ddarparwr y rhyngwyneb fel bod yn ganolog i brofiad y defnyddiwr:* Bydd hyn yn amrywio yn ôl y rhyngwyneb gan fod gwahanol ddarparwyr yn pwysleisio gwahanol swyddogaethau, ond yn gyffredinol mae'n debygol o gynnwys yr hafan; EPGau llinol; tudalennau glanio chwaraewyr fideo ar-alw; chwilio ac argymhellion; neu
    - *Sy'n cael eu defnyddio gan nifer sylweddol o bobl i gael mynediad at gynnwys teledu neu gynnwys tebyg i deledu:* Mae'n bosibl i rannau o ryngwyneb defnyddwyr beidio â bod wedi'u lleoli'n amlwg ond eu bod yn apelio'n sylweddol i ddefnyddwyr serch hynny[5]. Mae swyddogaethau o'r fath yn debygol o gynnwys EPGau llinol a thudalennau glanio chwaraewyr fideo ar-alw.

[4] Wrth ystyried beth ydy 'prif lwyfan', dylai Ofcom gael disgresiwn i ystyried amrywiaeth o ffactorau fel y mae'n credu sy'n briodol, gan gynnwys o bosibl nifer y defnyddwyr, faint o wylio sy'n cael ei ddarparu, ei bwysigrwydd i ddemograffeg arbennig, neu ei safle yn y farchnad ehangach.

[5] Er enghraifft, mae EPGau llinol yn dal yn ffordd boblogaidd o gael gafael ar raglenni, ond gallai llwyfan ddewis lleihau amlygrwydd yr EPG.

- *Y lefelau o amlygrwydd i'w darparu*, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):
    - Lle mae modd canfod gwasanaethau yn eu cyfanrwydd (e.e. tudalennau glanio apiau fideo ar-alw), mae'r gwasanaethau o fewn y cwmpas yn hawdd eu canfod ac mae modd cael atynt yn gyflym; a
    - Lle mae modd canfod darnau unigol o gynnwys o ganlyniad i benderfyniadau golygyddol a/neu greu algorithm, dylai llawer iawn o gynnwys o'r fath fod yn weladwy yn syth ac yn gallu cael ei briodoli i'r PSB perthnasol, a dylai bod modd cael mynediad ato'n gyflym. Dylai'r cynnwys unigol sy'n cael ei ddangos gael ei ddewis gan y PSBs perthnasol o blith eu catalog cyfan o'u gwasanaethau o fewn y cwmpas.

Wrth roi ei ganllawiau ar waith, dylai Ofcom orfod ystyried y canlynol:

- <u>Yr angen i sicrhau budd i ddefnyddwyr:</u> Mae cynnwys PSB o ansawdd uchel yn y DU yn dal yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd yn y DU, a dyna ydy'r rhan helaeth o'r cynnwys sy'n cael ei ddefnyddio o hyd, er gwaethaf y cynnydd mewn dewis. Dylai'r ymyriad amlygrwydd sicrhau nad ydy'r cynnwys poblogaidd hwn yn cael ei fwrw i'r ymylon gan weithredwyr byd-eang sydd â chymhelliad i wanhau awydd defnyddwyr am gynnwys y DU dros amser a/neu i gyflenwi bargeinion a threfniadau cynnwys byd-eang.
- <u>Yr angen i sicrhau budd i ddinasyddion</u>: mae'n bwysig bod darparwyr cynnwys a rhwydweithiau defnyddwyr yn gallu parhau i arloesi er mwyn bodloni gofynion eu defnyddwyr. Mae ystyried disgwyliadau defnyddwyr yn rhan o hynny. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig sicrhau budd i ddinasyddion, er enghraifft drwy wneud yn siŵr bod amrywiaeth eang o gynnwys PSBs yn cael ei hyrwyddo, gan wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu hannog i wylio cynnwys sy'n bodloni pwrpas a nodweddion PSB na fyddent wedi'i ddewis fel arfer efallai. Os yw'n ymddangos bod buddion o'r fath yn gwrthdaro, dylai budd i ddinasyddion gael y flaenoriaeth.
- <u>Yr angen i amlygrwydd fod am ddim ac yn anddibynnol</u>: Ni ddylai'r lefelau o amlygrwydd a gynigir gan weithredwyr EPG fod yn ddibynnol ar ffactorau eraill (e.e. ni ddylid lleihau amlygrwydd oni bai fod hawliau fideo ar-alw yn cael eu rhoi) ac ni ddylai PSBs orfod talu am amlygrwydd.
- <u>Y pwysigrwydd o sicrhau tryloywder digonol:</u> Dylai gweithredwyr rhyngwyneb defnyddwyr fod yn agored â defnyddwyr a'r diwydiant am sut maent yn penderfynu pa gynnwys i'w ddangos ym mha rannau o'u rhyngwyneb, a sut maent yn dewis ei hyrwyddo. Dylai hyn gynnwys penderfyniadau am amlygrwydd PSB yn ogystal ag unrhyw drefniadau masnachol (e.e. amlygrwydd y telir amdano), penderfyniadau golygyddol, ac unrhyw ddulliau gweithredu o ran data / algorithm a ddefnyddir. Mae tryloywder o'r fath yn bwysig o ran yr holl waith amserlennu a hyrwyddo, boed yn gynnwys a gwasanaethau PSB ai peidio.
- <u>Hawl defnyddwyr i bersonoli:</u> Ni ddylai amlygrwydd PSB gael ei orfodi o flaen camau uniongyrchol gan gynulleidfaoedd (e.e. dylai gwylwyr allu gosod eu dewislen ffefrynnau eu hunain neu newid trefn apiau ar dudalen). Ni ddylai amlygrwydd chwaith fod yn drech na cheisiadau am asedau rhaglenni penodol gydag ond un canlyniad posibl (e.e. 'dangoswch bennod 2, cyfres 3 o…'). Ond os oes unrhyw amwysedd wrth chwilio, lle mae modd cyflwyno mwy nag un canlyniad i ddefnyddwyr, dylai rheolau amlygrwydd gael eu dilyn.

Gall cyfundrefn o'r fath gael ei gweithredu mewn ffordd gymesur ac effeithiol, gan weithio o bosibl mewn modd tra thebyg i'r modd mae'n gweithio heddiw (gyda rhai gwelliannau). Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi. Mae'n dirprwyo pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol osod y sianeli sydd o fewn y cwmpas ac yn galluogi Ofcom i benderfynu sut mae gweithredu'r cod. Rydym yn credu y dylid diweddaru'r ddeddfwriaeth i adlewyrchu'r datblygiadau yn y farchnad:

- Llywodraeth: dylai’r Llywodraeth gadw deddfwriaeth sy’n galluogi, gan osod mewn cyfraith y canlyniadau gofynnol a rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol (ar ôl ymgynghori ag Ofcom) newid pa wasanaethau sydd o fewn y cwmpas a’r meini prawf a ddefnyddir i asesu a ydy rhyngwynebau defnyddwyr o fewn y cwmpas ai peidio, er mwyn i’r gyfundrefn allu cael ei diweddaru’n haws fel y mae technoleg ac anghenion a disgwyliadau cynulleidfaoedd yn newid;
- Darparwyr rhyngwynebau defnyddwyr: dylai’r darparwyr hyn gael y rhyddid i ddylunio cynnyrch sy’n gweithio i ddefnyddwyr ac yn meithrin cystadleuaeth, ond dylent hefyd gael eglurder wrth iddynt wneud hynny ynglŷn â’r disgwyliadau sylfaenol o ran amlygrwydd PSB y dylai'r cynhyrchion hyn eu bodloni. Dylai’r gyfundrefn ddiwygio’r gofyniad presennol o gyhoeddi Polisi EPG i gyhoeddi Polisi Rhyngwyneb Defnyddwyr. Dylid mynnu bod y polisïau hyn yn nodi sut mae darparwyr rhyngwyneb defnyddwyr wedi ystyried safbwyntiau darparwyr ‘gwasanaethau sydd o fewn y cwmpas’ ac Ofcom; ac
- Ofcom: dylai Ofcom barhau i fod yn gyfrifol am ddiweddaru'r cod amlygrwydd, gan ddarparu canllawiau ar yr ymarfer i’w ddilyn, fel y mae’n gwneud heddiw gyda’r cod EPG llinol. Dylai benderfynu a ydy rhyngwyneb defnyddwyr o fewn y cwmpas pan fydd anghytundeb yn hynny o beth. Dylai fod â rôl ôl-stop o ran cydymffurfio, gan gymryd camau cadarn yn ôl yr angen os nad ydy polisïau neu ganlyniadau’n cydymffurfio â’i god neu ei ganllawiau. Dylid ystyried rhinweddau mynnu bod Ofcom yn cynnal adolygiadau o effeithiolrwydd yr ymyriad, bob 3-5 mlynedd efallai. Dylai barhau yn ei rôl mewn cysylltiad â thriniaeth deg, rhesymol a heb wahaniaethu (‘FRND’) ar gyfer perthnasoedd rhyngwynebau defnyddwyr y tu hwnt i amlygrwydd.